"Gwae di, Chorasin! Gwae di, Bethsaida! Oherwydd petai'r gwyrthiau a wnaed ynoch chwi wedi eu gwneud yn Tyrus a Sidon, buasent wedi edifarhau erstalwm mewn sachliain a lludw. Ond rwy'n dweud wrthych, caiff Tyrus a Sidon lai i'w ddioddef yn Nydd y Farn na chwi."
(Mathew 11:21-22)

Er yn eiriau hallt o enau'r Addfwyn Oen, mae'r rhain yn eiriau pwysig sy'n dangos inni beth sy'n ennyn cerydd y Crist. Mae gwrthrychau'r cerydd yma wedi cael cyfleoedd a breintiau mawr, ond wedi eu hafradu a'u gwastraffu, a byddant yn talu'n ddrud am hynny.

Dinasoedd digyffro

Mae'r Arglwydd yn cyhoeddi trallod dwys ar drigolion y tair dinas yma yng Ngalilea. Mae nhw di bod yn dystion i weithredoedd nerthol Iesu. Y gair Groeg am 'wyrthiau' ydy *'dunameis'* sydd wedi rhoi y gair deinameit i ni. Er fod gwyrthiau a gweinidogaeth Crist yn ddeinameit, doedd hynny ddim yn ddigon i ddeffro pobl y cylch hwn i edifarhau a chredu'r Efengyl.

Dylai'r gweithredoedd mawr hyn fod wedi gwneud argraff fawr arnynt, a'u harwain at Dduw trwy Grist y Cyfryngwr: **"A fynni di beidio â gweld mai amcan tiriondeb Duw yw dy ddwyn i edifeirwch?"** (Rhuf. 2:4).

Wrth gyfeirio at y dinasoedd, mae Crist yn golygu mwyafrif y trigolion, wrth gwrs. Gan mai Capernaum oedd pencadlys ei weinidogaeth yng Ngalilea, mae'n amlwg y byddai'r trefi cyfagos wedi derbyn llawer o'i weinidogaeth hefyd. Capernaum welodd fwyaf o weinidogaeth rasol yr Immanuel. Roedd ei balchder mor fawr nes ei bod yn disgwyl cael ei chodi i'r nef. Mae hynny'n adlais o Eseia 14.13,15 sy'n darlunio brenin Babilon oedd, fel y diafol, wedi ymffrostio y byddai'n dyrchafu ei orsedd i'r nef, tra bod Duw yn dweud y byddai'n cael ei fwrw i'r pydew.

Tyrus a Sidon

Roedd y dinasoedd hyn yn cael enw drwg iawn gan yr Iddewon am eilunaddoliaeth a drygioni cyffredinol. Dywed Iesu, serch hynny, y byddai trigolion y gogledd wedi edifarhau pe bydden nhw di cael cyfle Galilea. Mae hyn yn drawiadol iawn o gofio'r hyn a ddarllenwn amdanynt yn y proffwydi. Mae Eseia 23 ac Eseciel 26-28 yn rhoi'r argraff fod y morwyr masnachol a'r trefedigaethwyr oedd yn byw yn yr ardal yna'n llawn balchder, yn ariangar ac yn greulon.

Fe gondemniodd Amos (Am. 1:9) y Tyriaid am werthu'r Israeliaid i gaethiwed yr Edomiaid. Dywed Joel fod y Phoeniciaid wedi gwerthu plant Jwda a phlant Jerwsalem i'r Groegiaid (3:6).

Mae cadarnhad i eiriau Crist wrth gofio'r wraig o Syroffenicia a ddaeth at Iesu i geisio iachâd i'w merch. Roedd ganddi ffydd i bledio am ei fendith, er nad oedd yn un o'r Iddewon, a chredodd ei addewid y gwelai ei merch yn holliach pan gyrhaeddai adref. (Marc 7:25-30).

Mae hanes hefyd yn dweud bod ardal y gogledd wedi derbyn Crist. Erbyn yr ail ganrif O.C. roedd esgobaeth wedi ei sefydlu ar gyfer pobl Tyrus a'r cylch. Cafodd yr ysgolhaig Cristnogol Origen ei gladdu ym masilica Cristnogol Tyrus hefyd.

Sachliain a lludw

Mae Iesu'n cyfeirio at ddull Iddewig o fynegi galar wrth sôn am sachliain a lludw. Byddai rhai yn gwisgo'r defnydd garw dros ddillad isaf, ond byddai eraill yn ei wisgo dros y croen. Roedd yn dywyll ei liw ac yn symbol o dristwch, fel y mae'r dillad du y bydd rhai yn gwisgo am gyfnod o alar heddiw. Mynegiant arall o dristwch eu cyflwr fyddai tywallt lludw dros eu pennau.

Dweud mae Iesu y byddai eraill wedi ymostwng o flaen Duw wrth weld arwyddion grasol Crist ac wrth glywed y geiriau trugarog, llawn newyddion da, a glywsai trefi Galilea.

Sodom

Difethwyd y ddinas hon ac eraill yn y cylch yn amser Abraham. Dyma'r lle y dewisodd Lot trachwantus fel cartref. Roedd yn nodedig am ei hanfoesoldeb a'i phechodau ffiaidd nes bod y gair 'sodomiaeth' wedi mynd yn enw ar gyfathrach gwrywgydiol. Eto i gyd, bydd llai i'w ddioddef ganddynt yn y Farn am fod eu goleuni a'u gwybodaeth o ffyrdd Duw yn llai.

Llai i'w ddioddef yn y Farn

Does neb yn gwybod yn union beth yw ystyr y geiriau hyn ynglŷn â dioddef llai; ond mae'n debyg y bydd poenedigaeth y sawl a welodd ac a glywodd dystiolaeth y Gwaredwr yn llawer mwy, gan eu bod wedi gwastraffu cyfle euraid i wneud y peth iawn: i edifarhau a chydnabod teyrnas Dduw ac i arbed eu heneidiau cyn iddi fod yn rhy hwyr.

Neges

Mae neges ddeublyg i ni yn hyn. Nid gwybodaeth o'r Efengyl ond ymateb yn bersonol iddi mewn ffydd sy'n ein harbed rhag wynebu trallod tragwyddol. A rhaid lledu'r Efengyl er mwyn goleuo eraill a'u harwain at y Gwaredwr a'r bywyd sydd ganddo inni.